# Antur Lychlynnaidd

Roderick Hunt Alex Brychta

Pïod
DRAKE






Daeth Wilff a Wilma at y drws.

Roedd yn bryd mynd i'r ysgol.

Dywedodd Onw wrth bawb am ei antur ym Mhicnic y Tedis.


Ond doedd neb yn ei gredu.



Roedd Cad, Dids a Wilff
yn nosbarth Mr Elis.
Roedd y plant yn hoffi Mr Elis.
Gwnâi bopeth yn ddiddorol
a dywedai lawer o storïau da.



Roedd gan Mr Elis fodel o long.
"Fedrwch chi ddweud wrtho i
pa fath o long yw hon?" gofynnodd.
Cododd Wilff ei law.
"Llong Lychlynnaidd yw hi," meddai.
"Da iawn, Wilff," meddai Mr Elis.



Dangosodd Mr Elis lun
o long Lychlynnaidd i'r plant.
"Llong hir oedd ei henw," meddai.
"Roedd ganddi rwyfau a hwyl a byddai'n symud
yn gyflym iawn drwy'r dŵr."




"Roedd y Llychlynwyr yn byw amser maith yn ôl,"
meddai Mr Elis. "Bydden nhw'n croesi'r môr mewn
llongau fel hyn."
Dangosodd Mr Elis helm Lychlynnaidd
a tharian Lychlynnaidd i'r plant.




Helpodd Mr Elis y plant â chywaith Llychlynnaidd.
Roedd yn ddiddorol iawn.
Gwnaethon nhw fodelau o longau hirion
a gwnaethon nhw dariannau a
helmau Llychlynnaidd.





Aeth Mr Elis â'r plant i neuadd yr ysgol.
Gwnaethon nhw long hir.
Wedyn gwisgon nhw i gyd fel Llychlynwyr
a smalio eu bod yn ei rhwyfo.
"Mae bod yn Llychlynnwr yn waith caled," meddai Cad.



Daeth y plant adref o'r ysgol.
Edrychon nhw ar yr allwedd hud.
Roedden nhw am iddi ddisgleirio
am nad oedd wedi disgleirio ers amser hir.
Dywedodd Onw wrthyn nhw eto am ei antur hud
ond doedd neb yn ei gredu.




Roedd Onw wedi siomi.
"Disgleiriodd yr allwedd hud yn y nos," meddai.
"Disgleiriodd hi pan oedd hi'n dywyll.
Fe wnaeth, fe wnaeth, fe wnaeth!"
Edrychodd Cad ar yr allwedd.
"Tybed…" meddai.



Cafodd Cad syniad da.
"Efallai bydd yr allwedd yn disgleirio
yn y tywyllwch," meddai.
Cafodd afael ar fflachlamp ac yna
cafodd hyd i flanced fawr drwchus.

Eisteddodd y plant ar y llawr
a thynnu'r flanced drostyn nhw'u hunain.
Roedd yn dywyll dan y flanced.
Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
Roedd yr hud yn gweithio wedi'r cyfan.
"Welwch chi?" meddai Onw.



Doedd dim gwynt.
Rhwyfodd y Llychlynwyr y llong hir
ar draws y môr.
Tynnodd pob dyn yn y rhwyfau.
Roedd bod yn Llychlynnwr yn waith caled.




Yn sydyn, dechreuodd y gwynt chwythu.
"Hwrê!" meddai'r Llychlynwyr.
"Nawr gallwn godi'r hwyl.
Gall y gwynt chwythu'r llong yn ei blaen
a fydd dim rhaid inni weithio mor galed."



Clywodd un o'r Llychlynwyr sŵn.
Aeth i edrych.
Cafodd hyd i'r plant.
"O na!" meddai Wilff. "Rydyn ni ar un
o longau hirion y Llychlynwyr.
Fedra i ddim credu'r peth!"





Neidiodd y Llychlynnwr yn ôl.
Fedrai e ddim credu chwaith!
Roedd golwg ffyrnig iawn arno.
"O diar," meddai Onw. "Dyw e ddim
yn edrych yn falch o'n gweld."



Gwthiodd y Llychlynnwr y plant
i gefn y llong hir.
"Edrychwch ar yr holl anifeiliaid hyn," meddai Onw.
"Dydw i ddim yn hoffi'r lle hwn. Mae'n drewi."
Dechreuodd y gwynt chwythu'n gryfach.
Cododd y Llychlynwyr yr hwyl.



Chwythodd y gwynt yn gryfach eto
a dawnsiodd y llong i fyny ac i lawr.
Tasgodd y tonnau dros y plant.
Aethon nhw'n oer ac yn wlyb.
Dechreuodd Onw deimlo'n sâl.
"Does fawr o sbri ar long hir," meddai.



Daeth y llong hir i'r lan o'r diwedd.
"Hwrê!" bloeddiodd y Llychlynwyr.
Neidion nhw i'r dŵr a chario
bocsys a bareli i'r lan.



Edrychodd y plant
dros ochr y llong hir.
"Gobeithio na fydd rhaid i ni neidio i mewn," meddai
Onw.
"Mae'n edrych yn oer ac yn wlyb."



“Fydd dim rhaid i chi neidio,” meddai’r Llychlynnwr.
“Fe dafla i chi i mewn!”
Cerddodd y plant drwy’r dŵr at y lan.
Roedd y pentrefwyr yn syfrdan.
Doedden nhw erioed wedi gweld plant fel hyn o’r blaen.





Roedd losin gan Onw.
Rhannodd e nhw gyda phlant y Llychlynwyr.
Doedden nhw erioed wedi gweld losin o’r blaen.
Doedden nhw ddim yn gwybod beth i’w wneud â nhw.



Aeth y Llychlynwyr â'r plant
i neuadd hir.
Llosgai tân ar ganol y llawr.
Roedd mwg ym mhobman.

Dechreuodd dywyllu a chyn hir
roedd yn amser bwyd.
"Felly dyma beth mae Llychlynwyr yn ei fwyta,"
meddai Wilff.




Pan oedd yn dywyll, daeth llong hir
yn agos i'r lan.
Roedd ysbeilwyr Llychlynnaidd ar y llong hir.
Roedden nhw'n mynd i ymosod ar y pentref.

Gwelodd un o'r pentrefwyr y llong hir
a rhedodd i'r neuadd hir.
"Help! Help!" galwodd.
"Mae ysbeilwyr yn glanio!"



Roedd golwg ffyrnig iawn ar yr ysbeilwyr.
Rhedon nhw tua'r pentref.
"Maen nhw'n mynd i ymosod!" meddai Wilff.
"Beth allwn ni ei wneud?"
"Hoffwn i petai'r allwedd hud yn disgleirio," meddai Onw.





Cafodd Cad syniad.
Cyfeiriodd ei fflachlamp atynt.
Doedd yr ysbeilwyr a'r pentrefwyr erioed
wedi gweld golau fel hyn o'r blaen.
Cawson nhw eu dychryn
a disgynnodd pawb ar y llawr.



Rhedodd yr ysbeilwyr yn ôl i'w llong hir
a hwylio i ffwrdd.
"Hwrê!" meddai'r pentrefwyr.
"Ddôn nhw ddim yn ôl yma
ar frys."



Edrychodd y Llychlynwyr ar fflachlamp Cad.
"Rhywbeth hud yw hwn," medden nhw.
"Roedd ei ofn arnom ni ond roedd mwy o ofn
ar yr ysbeilwyr ac achubodd ein pentref ni!"



Cynheuodd y pentrefwyr dân mawr
ar y traeth.
Cawson nhw barti i'r plant.
Rhoddon nhw darian i Cad.
"Diolch," meddai Cad. "Mae'n hardd."



Roedd Cad am roi'r fflachlamp
i'r Llychlynwyr ond dywedodd Wilff wrthi
am beidio.
Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Roedd yn bryd i'r antur ddod i ben.



Dangosodd Cad y darian Lychlynnaidd
i Mr Elis.
"Mae'n dda iawn," meddai Mr Elis,
"ond doedd tariannau'r Llychlynwyr ddim yn edrych
fel honna."
Edrychodd Cad ar Wilff a gwenu.

Argraffwyd yng Nghymru

# Antur Lychlynnaidd

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 8



Pïod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Pïod Cam 8**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

**Pïod Cam 9**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1990
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-315-6

ISBN 0 86 174315 6

DRAKE

9 790861 743154